| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Cynllunio** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **16 Mawrth 2016** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Cyng. David Smith, Parth y Cyhoedd**<br>**Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Claire MacFarlane, Swyddog Cynllunio** |
| **Teitl:** | **Brîff Datblygu Safle: Tir yn ffinio â'r hen Ysbyty HM Stanley, Llanelwy - Mabwysiadu dogfen derfynol** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y 'Brîff Datblygu Safle drafft: Tir yn ffinio â'r hen Ysbyty HM Stanley, Llanelwy', addasiadau arfaethedig i'r brîff ac argymell mabwysiadu er mwyn gallu defnyddio'r canllaw wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ar ôl mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Ddinbych, mae'n rhaid cael Briffiau Datblygu Safle i gefnogi nifer o ddyraniadau safle. Mae'r rhain yn rhoi arweiniad pellach i ddatblygwyr, Swyddogion ac Aelodau. Mae fersiwn y Brîff Datblygu Safle y bwriedir ei fabwysiadu wedi ei atodi i'r adroddiad hwn fel Atodiad 1.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr Aelodau'n mabwysiadu'r Brîff Datblygu Safle ar gyfer y 'Tir yn ffinio â'r hen Ysbyty HM Stanley, Llanelwy' ynghlwm fel Atodiad 1, i'w ddefnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau cynllunio.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Os caiff ei fabwysiadu, bydd y brîff datblygu safle hwn yn un o gyfres o nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sy'n ategu polisïau a dyraniadau safle Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Ddinbych 2006-2021.

4.2 Bydd y brîff datblygu safle'n sail ar gyfer penderfynu ar unrhyw gais cynllunio ar y safle yn y dyfodol. Nod y brîff yw darparu arweiniad ar faterion posibl y bydd angen i ddatblygwyr eu hystyried, canllaw cynllunio sy'n berthnasol yn lleol ar gyfer y safle a sicrhau bod gofynion y Cyngor o ran datblygu'r safle hwn yn cael eu cyflawni.

4.3 Roedd y Brîff Datblygu Safle drafft yn destun ymgynghoriad cyhoeddus am 8 wythnos o'r 5 Hydref i'r 30 Tachwedd 2015. Mae Adroddiad Ymgynghori, gan gynnwys crynodeb o bob ymateb a dderbyniwyd, ynghlwm i'r adroddiad hwn fel Atodiad 2.

4.4 Cynhaliwyd dwy sesiwn alw heibio yn Llanelwy yn ystod y cyfnod ymgynghori a rhoddwyd cyfle i'r rhai oedd yn bresennol i roi sylwadau ar fapiau o'r safle. Yn y digwyddiadau, roedd Swyddogion yn bresennol i siarad â'r cyhoedd, rhoi gwybodaeth a chyngor pellach ar ymholiadau oedd yn ymwneud yn benodol â'r safle.

4.5 Derbyniwyd cyfanswm o 11 ymateb ysgrifenedig yn ystod y cyfnod ymgynghori (gan gynnwys unrhyw ymatebion hwyr) a rhoddwyd 16 sylw ar y mapiau yn y sesiynau galw heibio. Rhoddir crynodeb o'r materion allweddol a godwyd a chrynodebau o bob sylw a dderbyniwyd ac mae'r ymatebion unigol yn cael eu nodi yn yr Adroddiad Ymgynghori sydd ynghlwm fel Atodiad 2. Mae sylwadau gwreiddiol ar gael i'w gweld gan y Tîm Cynllunio Strategol a Thai yng Nghaledfryn.

4.6 Mae nifer o newidiadau'n cael eu cynnig mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd. Dangosir y rhain fel testun a amlygwyd neu ~~linell drwodd~~ yn y Brîff Datblygu Safle sydd ynghlwm yn Atodiad 1. Mae'r prif newidiadau arfaethedig yn cynnwys: cyfeiriad at y caniatâd cynllunio a roddwyd yn ddiweddar y tu cefn i hen Safle Ysbyty HM Stanley; cyfeiriad at yr angen i ddarparu ystod o fathau a meintiau tai; y gofyniad i'r datblygwr gynhyrchu Cynllun Rheoli Adeiladu; a nifer o newidiadau ffeithiol bychan.

4.7 Adroddwyd y Brîff Datblygu Safle diwygiedig a'r Adroddiad Ymgynghori yn ôl i Grŵp Llywio Aelodau ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar 9 Chwefror 2016. Argymhellodd y Grŵp Llywio bod y ddogfen yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio er mwyn ei mabwysiadu.

4.8 Roedd dogfen sgrinio Asesiad Amgylcheddol Strategol yn cyd-fynd â'r Brîff Datblygu Safle drafft, a oedd yn destun ymgynghoriad gyda'r ymgyngoreion statudol. Derbyniwyd un ymateb, gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae dogfen sgrinio'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ar gael ar gais.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Blaenoriaethau Corfforaethol 2012-17. Bydd y brîff datblygu safle yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at y blaenoriaethau corfforaethol canlynol:

- *Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da* trwy ddarparu fframwaith ar gyfer cyflwyno cymysgedd o ddatblygiadau tai newydd, gan gynnwys cyfran o dai fforddiadwy.
- *Datblygu'r Economi Leol* trwy ddarparu'r fframwaith ar gyfer y posibilrwydd o ddarparu tir ar gyfer datblygiadau tai newydd a thrwy ysgogi twf yn y diwydiant adeiladu lleol.*Strydoedd glân a thaclus* trwy sicrhau bod cynllun datblygu a ddyluniwyd yn dda yn cael ei ddarparu,

sy'n ymgorffori mannau agored, llwybrau ar gyfer mynediad i gerddwyr, ynghyd â threfniadau ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol.

- *Moderneiddio'r Cyngor* i gyflawni effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid drwy sicrhau bod dogfennau canllawiau cynllunio yn gyfredol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae'r adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i fabwysiadu ac ar hyn o bryd ni ragwelir y bydd yn creu unrhyw gost ychwanegol.

6.2 Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y Brîff Datblygu Safle yn gymorth i Swyddogion ac Aelodau wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd yn cynorthwyo'r tîm Rheoli Datblygu gan y bydd ganddynt wybodaeth ychwanegol am fathau derbyniol o ddatblygiad yn nhermau cynllunio a chyfyngiadau posibl y safle.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Casgliad y sgrinio ar yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 3) yw nad oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y Brîff Datblygu Safle, gan gynnwys y newidiadau i'r ddogfen arfaethedig.

7.2 Derbyniodd yr aelodau farn sgrinio Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb cyntaf gyda'r adroddiad i'r pwyllgor cynllunio ym mis Medi 2015 pan ofynnodd Swyddogion am gymeradwyaeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gyda budd-ddeiliaid allweddol ac aelodau o'r cyhoedd. Daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen AEC llawn bryd hynny. Nid yw'r newidiadau i'r ddogfen arfaethedig yn cyfiawnhau asesiad llawn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Trafodwyd cynnwys y Brîff Datblygu Safle drafft, ac egwyddorion datblygu, yng nghyfarfodydd Grŵp Llywio Aelodau'r Cynllun Datblygu Lleol ym mis Chwefror a Gorffennaf 2015, ac yng nghyfarfod Grŵp Ardal Aelodau Elwy ym mis Mai 2015.

8.2 Yn dilyn cyfnod ymgynghori cyhoeddus, trafododd y Grŵp Llywio Aelodau'r CDLl faterion a nodwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd, a chynnig diwygiadau i'r Brîff Datblygu Safle, ym mis Chwefror 2016.

8.3 Roedd swyddogion o'r Gwasanaethau Tai, Priffyrdd a Chefn Gwlad yn cyfrannu at gynhyrchu'r Brîff Datblygu Safle, ynghyd ag Aelodau'r ward leol a chynrychiolwyr Hosbis St Kentigern.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dylai unrhyw gostau sy’n gysylltiedig â'r canllawiau terfynol gael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ac felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol amlwg wedi’u cynnwys yn yr adroddiad.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae’r Brîff Datblygu Safle yn gosod gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r safle ar gyfer y dyfodol. Heb arweiniad clir ar gyfer y safle mae perygl na fyddai datblygiad cynaliadwy o ansawdd uchel, gyda'r cymysgedd priodol o ddefnyddiau a manteision cymunedol yn cael ei gyflawni.

10.2 Ni fyddai peidio cymryd unrhyw gamau, h.y. peidio a chael unrhyw ganllawiau cynllunio ar waith ar gyfer partïon â diddordeb, yn cyd-fynd ag uchelgais y Cyngor i ddarparu swyddi a chartrefi i gymunedau lleol ac amgylchedd adeiledig a naturiol deniadol i fyw ynddo a rhedeg busnes ynddo.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

11.1 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).